**Sesiwn 1999-2000 Rhif 13**

# PAPURAU BUSNES

## DYDD MERCHER 7 GORFFENNAF 1999

## RHAN 1—ADRAN A

## AGENDA

**Bydd y Sesiwn yn dechrau am 2pm.**

**Cwestiynau i Rhodri Morgan, yr Ysgrifennydd dros Ddatblygu Economaidd** (15 munud)

Mae rhestr o’r cwestiynau llafar ar y Rhyngrwyd (a Gwe’r Siambr)

**Cwestiynau i Edwina Hart, yr Ysgrifennydd Cyllid** (15 munud)

Mae rhestr o’r cwestiynau llafar ar y Rhyngrwyd (a Gwe’r Siambr)

**Dirprwyo swyddogaethau Deddf Iechyd 1999**

Cynnig:

1. Bod y Cynulliad, yn gweithredu o dan adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn dirprwyo ei swyddogaethau o dan Ddeddf Iechyd 1999, yn amodol ar baragraff 2 ac unrhyw benderfyniad arall gan y Cynulliad, i Brif Ysgrifennydd y Cynulliad.

2. Bod y swyddogaethau o dan Ddeddf Iechyd 1999 yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw un o swyddogaethau’r Cynulliad a gynhwyswyd mewn unrhyw offeryn mewn grym neu’n ymwneud â’r Ddeddf honno.

*I’w gynnig gan Jane Hutt, yr Ysgrifennydd Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.*

**Cysylltu â Chymdeithas Seneddol y Gymanwlad**

Cynnig bod y Cynulliad:

- yn gwneud cais am gael bod yn aelod o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad, gydag aelodaeth o'r fath i ddod i rym ar unwaith drwy gymeradwyaeth o'r cais gan Gynulliad Cyffredinol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad;
- yn cytuno i gydlynu â darpariaethau Cyfansoddiad Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad;
- yn talu'r tâl aelodaeth gofynnol i Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad; ac
- yn cyfathrebu cynnwys y penderfyniad i Ysgrifenyddiaeth Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad ar unwaith ar ôl ei basio.

*Cynnig gan Y Trefnydd*

**Dadl ar Bartneriaeth Wledig**

Cynnig bod y Cynulliad:

- yn nodi'r Datganiad am faterion gwledig a baratowyd gan Bartneriaeth Wledig Cymru i'w gyhoeddi yn nes ymlaen ym mis Gorffennaf; proflenni'r Datganiad i'w rhoi yn llyfrgell y Cynulliad; ac
- yn cytuno i roi ystyriaeth ofalus i waith y Bartneriaeth Wledig yn hyrwyddo'r economi wledig drwy ddatblygu polisïau a rhaglenni cydlynol sy'n cydnabod anghenion a dyheadau cymunedau gwledig Cymru.

*I'w gynnig gan Christine Gwyther, Ysgrifennydd y Cynulliad dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig*

Detholwyd y diwygiad canlynol:

**Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn)**: Ar ddiwedd y cynnig, i gynnwys y trydydd pwynt fel a ganlyn:

- *yn croesawu penderfyniad y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig i ystyried y Datganiad Partneriaeth Wledig fel rhan o'i raglen, a phenderfyniad y Pwyllgor i hyrwyddo gwerthoedd y Datganiad terfynol er lles cymunedau gwledig yng Nghymru.*

Mae copi o Ddatganiad Strategol Cefn Gwlad wedi'i roi yn y Llyfrgell ac ar y Siambr yn Saesneg yn unig.

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

********************************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth 13 Gorffennaf 1999**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**